

Arwain fel cynghreiriad yn Gymru wrth-hiliol

Cyhoeddwyd gan Dave Goodger, Prif Swyddog Gweithredol, Blynyddoedd Cynnar Cymru

Mae unrhyw swydd o arweinyddiaeth yn rhoi lefel o fraint i berson. Ynghyd â braint daw atebolrwydd ac ymdeimlad o gyfrifoldeb dinesig sy'n ymestyn y tu hwnt i'r swydd a enillir ac sy'n cydblethu â'r gwerthoedd a'r egwyddorion rydych chi'n byw ynddynt.



Pan ddechreuais fy rôl fel Prif Swyddog Gweithredol Blynyddoedd Cynnar Cymru, ym mis Mawrth 2020, dim ond pymtheg diwrnod oedd gen i gyn i'r pandemig gau'r sector, yr ysgolion a'n swyddfeydd. Mewn cyfnod digynsail o ansicrwydd, yr unig lwybr arweiniol sefydlog oedd aros yn wir i'm gwerthoedd a'm hegwyddorion fy hun, bod yn ddilys, ac arwain fy nhîm gyda gonestrwydd.

Mae fy mreintiau yn niferus, fel dyn gwyn, addysgedig, rwy'n ymwybodol bod y ffordd y mae cymdeithas yn ymateb i mi ac yn fy nhrin yn wahanol i lawer o bobl oeddwn mewn cysylltiad yn fy mlynyddoedd iau, pobl yr wyf yn eu galw'n ffrindiau, a chydweithwyr rwydd wedi gweithio gydag yn y gorffennol ac yn gweithio gyda hyn o bryd. Pan ddeallais y breintiau a ddarparodd fy rôl newydd yn fwy manwl, roeddwn i'n gwybod mai cyfrifoldeb i oedd arwain fy sefydliad i wneud yn well. Roedd yn amlwg nad oeddem yn hiliol, ond yn bendant nid yn wrth-hiliol bryd hynny. Mewn gwirionedd, nid wyf yn sicr fy mod i naill ai, ond roeddwn i'n gwybod bod yn rhaid i mi fod yn wrth-hiliol o ran gwerth, gair, a gweithred. Roeddwn i eisiau defnyddio ein safle cyfunol fel sefydliad yn y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar i fod yn gynghreiriaid cryf i gefnogi Cymru wrth-hiliol. Doeddwn i ddim eisiau aros i glywed canlyniadau adolygiadau, gweithgorau a oedd yn eistedd yn 2020, na cheisio caniatâd; Roeddwn i eisiau defnyddio ein hegri, adnoddau a'n cymhelliant ar y cyd i arwain a chyfrannu at Gymru wrth-hiliol o 2020, nid yn barod ar gyfer 2030.

Faint bynnag roeddwn i'n teimlo fy mod eisoes yn wybodus, roeddwn i'n gwybod bod yn rhaid i mi wybod mwy, gwneud yn well a deall llawer mwy i hyd yn oed ddechrau ystyried fy hun yn hiliol llythrennog.

Gwnewch eich gorau
glas nes eich bod chi'n
gwybod yn well. Os
ydych chi'n gwybod yn
well, gwnewch yn well."
Maya Angelou

Roeddwn i'n ffodus iawn. Yn fy ymgais i fyfyrion a dysgu, cwrddais â Liz Pemberton, The Black Nursery Manager, trwy gysylltiad cydfuddiannol gan fy rhwydwaith o swydd flaenorol. Roedd dylanwad Liz, ei sgysiau pwerus a goleuedig, a'i harweiniad a'i chefnogaeth yn sbardun i ddysgu, darllen, gwranddo, a dyfnhau fy meddwl fy hun. Mae gweithio gyda Liz wedi arwain at gyfarfod Chantelle Haughton, Rachel Clarke, Laura Henry-Allain, Dr Sue Davis, Aisha Thomas a llawer mwy; Ac mae pob person a sgwrs wedi fy helpu i ddysgu, myfyrio, datblygu a deall profiadau nad wyf yn dod ar eu traws yn fy mhrofiad byw. Ni allem fod wedi darparu unrhyw un o'r profiadau dysgu nac wedi gwneud unrhyw gynnydd heb gefnogaeth yr arweinwyr hyn mewn addysg. Trwy gyfeiriad cychwynnol Liz darllenais yn ehangach na Akala a Benjamin Zephaniah (ddau awdur rhagorol gyda llaw) ac ehangais fy myfyrdodau, darllen a dysgu fy hun.

Mae gwaith cychwynnol Liz gyda'n tîm yn Blynyddoedd Cynnar Cymru, a deialog barhaus o'r gwaith yr oedd angen i ni i gyd ei wneud wedi ein galluogi i weithio mewn cynghreiriad i'r mwyafrif byd-eang. Ni all un person yn unig wneud y newid systemig a chymdeithasol sydd ei angen arnom i wireddu dyhead o fod yn Gymru wrth-hiliol; A gadewch i ni ddim gwneud unrhyw gamgymeriad, nid ydym yno eto a bydd yn rhaid gwneud llawer mwy. Wrth i mi ysgrifennu hwn yn 2024, mae gormod o naratifau o hiliaeth; systemau sydd angen eu datgymalu a'u hailadeiladu; ac unigolion y byddai nenfwd gwydr ar eu cyfer yn llawer llai problemus na'r rhwystrau strwythurol y maent yn cael eu gorfodi i'w goresgyn ar hyn o bryd. Felly, mae grymuso a chefnogi fy nhîm, waeth beth fo'u rôl na'u hethnigrwydd, i ddyfnhau eu gwybodaeth wedi bod yn ganolog i'm polisi arwain. Rwyf wedi talu am lyfrau, awdurdodi mynychiad cynadleddau, ac ymweliadau TEDTalk, wedi parhau i fuddsoddi mewn siaradwyr arloesol sy'n barod i arwain y daith ddysgu wrth-hiliol, ac wedi hyrwyddo awduron, beirdd a gweithwyr creadigol proffesiynol gan ganiatáu i'm staff 'wybod yn well'. Rwyf wedi sicrhau hyfforddiant mewnol rheolaidd gan amrywiaeth o ddarparwyr (gweler atodiad) ac wedi cadw gwrth-hiliaeth fel rhan greiddiol o'n cynnig aelodaeth a'n cynllun datblygu mewnol.

Gydag ac ar ran ein haelodau, a rhanddeiliaid ehangach, rydym wedi cydweithio i hyfforddi, uwchsgilio, a hysbysu cymaint o bobl ag y gallwn. Ym mhob sesiwn ddysgu, rydym wedi gosod arweinydd o'n sefydliad ar yr hyfforddiant, ymuno ag arweinwyr yr hyfforddiant hwn a dangos ein cynghreiriaeth ym mhob ffordd y gallwn, o hyrwyddo, i ddarparu cyfleoedd, i herio rhagfarnau ac wynebu sgysiau anodd gan allfeydd cyfryngau cenedlaethol anwybodus. Gyda chefnogaeth lawn y tîm, rydym wedi sicrhau nad oes un 'hyfforddiant

gwrth-hiliol' ond taith Cymru wrth-hiliol yr ydym i gyd yn parhau i'w chefnogi fel cyrchfan y mae angen i ni ei chyrraedd gyda'n gilydd.

Gan ddeall y dystiolaeth bod plant yn gallu adnabod gwahaniaethau gweledol o'r blynyddoedd cynnar iawn, mae angen i ni sicrhau bod y cyd-destun y maent yn tyfu, datblygu a'r strwythurau cymdeithas y maent yn ei brofi, megis darparwyr gofal plant a darparwyr gofal iechyd i enwi dim ond dau y gallent eu cyfarfod yn eu blynyddoedd cynnar, yn hyrwyddo gwerthoedd gwrth-hiliaeth yn gadarn. Mae angen i ni ddefnyddio pob lifer a mecanwaith i ddylanwadu ac amharu ar unrhyw stereoteipiau a rhagfarnau negyddol neu waeth y mae cymdeithas ac oedolion yn eu caniatáu ar hyn o bryd.

Mae Rachel Clarke yn dweud, **'hiliaeth yw'r dŵr, nid y siarc. Os ydym am wneud yn well, mae'n rhaid i ni drwsio ein diwylliant a'n systemau cyfan, nid pobl yn unig.'** Rwy'n cytuno. Ac fel arweinydd, sy'n cael ei diwnio i mewn i niwrowyddoniaeth, ni allaf golli honiad Daniel Levitin fod empathi yn sgil sy'n dirywio yn y gymdeithas fodern¹. Os yw hyn yn wir, hiliaeth yw'r dŵr, **ac** mae'r llanw'n rhedeg yn ein herbyn. Rhaid i ni barhau i wrando ar leisiau'r rhai y mae hiliaeth yn effeithio, i glywed eu geiriau, i wella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth i fod yn gynghreiriaid dibynadwy a chyson. Mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r holl gamau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cyfrannu at Gymru wrth-hiliol yr ydym am fyw ynddi, gweithio ynddi a phrofiad yng Nghymru.

Rwyf wedi ymrwmo i gamau personol, sefydliadol a chyfunol i ymateb i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Wrth i chi ddarllen hwn, ar ba lefel bynnag o arweinyddiaeth o uwch arweinydd i ymarferydd unigol, beth fyddwch chi'n ei wneud i ddarparu eich cynghreiriad i daith Cymru wrth-hiliol? Efallai y bydd eich cyfraniad yn corrachu fy un i, neu fel fy un i, yn creu crychdonnau sy'n cefnogi adfyfrio, ymgysylltu, dysgu a gweithredu yn y rhai o'ch cwmpas. Rydym yn gryfach gyda'n gilydd, a byddwn yn eich annog i ddefnyddio'ch caniatâd, buddsoddi eich amser mewn myfyrio a dysgu a gwneud eich cyfraniad eich hun.

***"Harddwch gwrth-hiliaeth yw nad oes rhaid i chi esgus bod yn rhydd o hiliaeth i fod yn wrth-hiliol. Gwrth-hiliaeth yw'r ymrwymiad i frwydro yn erbyn hiliaeth ble bynnag y byddwch chi'n dod o hyd iddo, gan gynnwys ynoch chi'ch hun. A dyma'r unig ffordd ymlaen."* – Ijoema Oluo**

Wrth rannu'r daith hon, nid wyf yn ceisio bod yn ymhyfrydu; Dyma fy nhaith bersonol fel un arweinydd mewn pwll o lawer. Byddaf yn gadael i hanes farnu fy mherfformiad, fy arweinyddiaeth, fy uniondeb, fy ngweithredoedd, a gweithredoedd ac ymatebion y sefydliad rwy'n ei arwain. Rwy'n gobeithio y gall fy nysgu, fy mherchnogaeth o'm camgymeriadau, a'm presenoldeb a'm gweithred barhaus i ddysgu fy hun, annog eraill i ddysgu, a gwneud yn well ysbrydoli arweinwyr eraill i gamu ymlaen ac arwain yn eu ffordd unigryw ac ysbrydoledig eu hunain.

¹ The Organized Mind tud.131 – Daniel Levitin

Atodiad o gredydau

Liz Pemberton, The Black Nursery Manager, <https://www.theblacknurserymanager.com/>

Rachel Clarke, Apex Educate, <https://www.apex-educate.co.uk/>

Chantelle Haughton DARPL, <https://darpl.org/>

Dr Susan Davis, (ar gael drwy DARPL), <https://darpl.org/>

Laura Henry-Allain MBE, <https://www.laurahenryallain.com/about/>

Aisha Thomas, Representation Matters, <https://www.repmatters.co.uk/about-our-founder>

Sunil Patel a Sean Wharton, No Boundaries, <https://www.noboundaries.org.uk/>

Mae llawer mwy wedi rhannu eu hamser mewn mannau anffurfiol, trwy sgysiau, a thrwy gysylltiadau personol sydd wedi cyfrannu at fy helpu i ddeall eu profiadau eu hunain. Byddai'r rhain yn rhy niferus i'w henwi, ac allan o gyd-destun mewn papur cyhoeddus; Rydych chi'n gwybod pwy ydych chi a bod eich cyfeillgarwch, cefnogaeth a'n cysylltiadau cyffredin yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Diolch.